

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthyfch yr hyn y gallwch ei ddisgwyl pan fo Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn casglu gwybodaeth bersonol. Mae'r uned Adnoddau Dynol yn casglu eich gwybodaeth ar gyfer y broses recriwtio yn unig, i bwrpas gwerthuso eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth, gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ac ar gyfer monitro cydraddoldeb. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei ddiogelu a'i brosesu yn unol â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.

Mae'n bosib bydd rhan o'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei gyfnewid gyda thrydydd parti lle mae'n angenrheidiol at ddibenion asesu ac i gynnal sgrinio cyn-gyflogaeth. Er enghraifft, wrth gael tystlythyrau gan gyn-gyflogwyr, neu wrth ofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gall y wybodaeth a gasglwyd cynnwys y canlynol:- .

- Eich enw;
- Cyfeiriad;
- Llofnod;
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif Yswiriant Cenedlaethol
- Cymwysterau
- Cyflogaeth blaenorol
- Aelodaeth o Gyrrff Proffesiynol
- Tarddiad Ethnig
- Data Anabledd
- Crefydd

Os yw eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd CCG yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu eich cyflogaeth. Os yw eich cais yn aflwyddiannus, bydd CCG yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod hyd at 6 mis o'r dyddiad y mae'r ymgyrch recriwtio perthnasol yn cau.

Pobl sy'n galw ein llinell gymorth

Pan fyddwch yn galw CCG byddwn yn cadw eich rhif ffôn, y dyddiad, amser a hyd eich galwad. Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro perfformiad y gwasanaeth yn ymateb i ymholiadau a chânt eu difa ar ôl 12 mis. Ar adegau, fe all CCG recordio eich galwad ffôn - ni fydd hyn yn digwydd ond i bwrpasau hyfforddi a monitro neu pe bai ein staff yn cael eu difrio. Ym mhob achos byddwn yn rhoi rhybudd i chi ymlaen llaw o'n bwriad i recordio'r alwad.

Pobl sy'n anfon e-bost atom

Gellir monitro unrhyw e-bost a anfonir atom, gan gynnwys unrhyw atodiadau, ar gyfer cydymffurfiaeth gyda Pholisi Diogelu Data. Gellir defnyddio meddalwedd rhwystro neu fonitro e-bost hefyd. Cofiwch os gwelwch yn dda bod gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw e-bost yr ydych yn ei anfon atom o fewn ffiniau'r gyfraith.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol i ddibenion marchnata. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi (cyn casglu eich data) os ydym yn bwriadu defnyddio eich data i unrhyw ddiben o'r fath neu os ydym yn bwriadu datgelu eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti i'r un perwyl. Gallwch ymarfer eich hawl i rwystro prosesu o'r fath trwy gwblhau rhai blychau ar y ffurflenni yr ydym yn eu defnyddio i gasglu

data.

Mynediad i wybodaeth bersonol

Mae CCG yn ceisio bod mor agored â phosib o ran rhoi mynediad i bobl i'w wybodaeth bersonol. Gall unigolion ddarganfod a oes gennym wybodaeth bersonol amdanynt trwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth' dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. Os bydd gennym wybodaeth amdanoch byddwn yn:

- rhoi disgrifiad ohoni;
- dweud wrthy ch pam mae'r wybodaeth gennym;
- dweud wrthy ch i bwy y gellir datgelu'r wybodaeth; a
- rhoi copi o'r wybodaeth ar ffurf ddealladwy.

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i chi gael mynediad i wybodaeth sydd gennym amdanoch. Gallwch ymarfer eich hawl mynediad yn unol â'r Ddeddf. Ni fydd angen i chi dalu ffi i weld eich data personol (nac i ymarfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os ydi'ch cais yn ddi-sail, yn ailadroddus neu yn ormodol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais yn yr amgylchiadau hyn.

Os os gennym wybodaeth amdanoch, gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau trwy gysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol. Bydd unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod na fydd yn hwy nag sydd angen.

Datgelu gwybodaeth bersonol

Mewn llawer o amgylchiadau ni fyddwn yn datgelu data personol heb ganiatâd. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ymchwilio i gŵyn, er enghraifft, hwyrach y bydd angen i ni rannu gwybodaeth bersonol gyda'n cydweithwyr. Ymhellach, o bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i CCG ddatgelu gwybodaeth bersonol yn unol â'r gyfraith, er engraifft i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Heddlu, y Gwasanaethau Iechyd ac asiantaethau eraill.

Sut i gysylltu â ni

Am fwy o wybodaeth am Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Sir Ynys Môn cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Swyddog Diogelu Data, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, PO Box 206, Bangor, Gwynedd, LL57 9DS neu trwy ebost GDPR@ccgwynedd.org.uk